

Gwybodaeth am y rôl



Rhaid i Aelodau'r Panel Ymgynghorol Pobl Ifanc fod rhwng 11 ac 17 oed a bod yn byw yng Nghymru.

(Os ydych chi'n 17 oed ac yn troi'n 18 oed yn ystod eich tymor mae hyn yn iawn, fe fyddwn yn blaenoriaethu'r rhai fydd o dan 18 oed am flwyddyn gyntaf eu tymor o leiaf).

Pryd a ble maen nhw'n cyfarfod?

Mae'r Panel yn cyfarfod 3 gwaith y flwyddyn am ddiwrnod cyfan neu am 2/3 awr yn rhithiol/ar-lein. Rydym yn gofyn i chi ddod i'r cyfarfodydd sydd wedi'u uwcholeuo isod, ag un arall ym mis Hydref. Mae'r gweddill yn gyfleoedd gwirfoddol i ddal i fyny gyda'r Comisiynydd bob mis.

Hyfforddiant (Zoom)	Cyfarfod (wyneb yn wyneb)	Cyfarfod (Zoom)	Cyfarfod (Zoom)	Cyfarfod (Zoom)	Cyfarfod (wyneb yn wyneb)
25/26 Ionawr 5.30 — 7yh	Gogledd Cymru: 5 Chwefror De Cymru: 12 Chwefror 10.30 — 3yp Lleoliadau i'w cadarnhau	14 Mawrth 6 — 7pm	27 Ebrill 6 — 7pm	24 Mai 6 — 7pm	13 Gorffennaf 11.00 — 3pm Lleoliad i'w gadarnhau

Beth mae nhw'n gwneud pan fyddan nhw'n cyfarfod?

- Rhoi cyngor a chymorth i'r Comisiynydd Plant, ynghylch sut mae nhw'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru ac yn eu cynrychioli.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o hawliau plant a hyrwyddo gwaith y Comisiynydd.
- Gweithio gyda'r Comisiynydd a'r fîm i adolygu'r cynllun gwaith bob blwyddyn a rhoi syniadau newydd ac adborth iddyn nhw.
- Gweithio gyda'r Comisiynydd a'r fîm i adolygu a gwella gwaith y grŵp ymgynghorol, gan gynnwys recriwtio a chefnogi aelodau newydd a phresennol.



Mae angen bod ganddyn nhw:

- ✓ Sgiliau cyfathrebu da er mwyn cymryd rhan mewn trafodaethau a rhannu eu barn.
- ✓ Sgiliau gweithio mewn fîm; gallu i weithio gyda phobl eraill i gyflawni prif nod.
- ✓ Peth profiad blaenorol o gynrychioli eraill, e.e. cyngor ysgol, fforwm ieuenctid.
- ✓ Profiad o rannu eu barn yn hyderus ag eraill.
- ✓ Diddordeb mewn hawliau plant.
- ✓ Gwybodaeth neu brofiad o faterion mae pobl ifanc yng Nghymru yn eu hwynebu.

Maen nhw'n:

- ✓ Llawn brwdfrydedd ac yn awyddus i gyfrannu syniadau newydd.
- ✓ Trin eraill yn garedig ac yn barchus.
- ✓ Ymrwymo i fynychu 3 chyfarfod y flwyddyn am 2 flynedd (oni bai bod amgylchiadau nad oes modd eu hosgoi yn eu hatal).